**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**
**Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.**
**Teleffon: Botwnnog 730357**

7fed Gorffennaf, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor **Nos Lun nesaf, 12fed GORFFENNAF, 2021,** am 7.30 y.h. yng Nghanolfan Bryncroes. Byddwn yn ddiolchgar iawn os y gall pawb gadw at y rheolau COFID, e.e. gwisgo mwgwd, diheintio, cadw pellter cymdeithasol a.y.

**R H A G L E N**

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

2. **YMDDIHEURIADAU**

3. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**
I dderbyn gwybodaeth.

4. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 14eg MEHEFIN, 2021.**
Copi'n amgaeëdig. "A"
I drafod materion yn codi
**(a) Eitem 18 Cadarnhau Cofnodion (Materion yn codi):**
*Eitem 108 – Materion Ffyrdd a Llwybrau*
Adroddiad Y Cynghorydd Carys H. Evans ar y llwybrau/camfeydd sydd angen sylw.
*Eitem 110 – Meddygfa Rhydbach, Botwnnog*
Adroddiad pellach.
(b) **Eitem 20 – Mater Ffyrdd a Llwybrau**
Ymateb Uwch Beiriannydd, Cyngor Gwynedd.

5. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.
Cais C21/0610/32/LL – creu mynedfa gerbydol i'r ffordd – Efail Glandwr. Sarn Mellteyrn.

6. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
(a) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.
(b) Nodyn gan Beiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, yn hysbysu y bydd y ffordd o Bengongl, Rhydyclafdy i Fotwnnog (30mya) (2 ran) yn cael ei 'harwisgo' yn ystod y mis. (dyddiad y rhybudd 28ain Mehefin, 2021).

7. **CYFRANIADAU ARIANNOL**
I ystyried y ceisiadau a ganlyn:
Cyfeillion Mynwent Mellteyrn
Ty Gobaith

Copi o'r ddau gais yn amgaeedig. "B"

8. **AWDURDOD I DALU**
I awdurdodi unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.

9. **YMGYNGHORIAD AR REOLIADAU CYMWYSTERAU CLERCOD CYNGHORAU CYMUNED**
I ystyried y ddogfen uchod.
Gellir dod o hyd i'r cysylltiad â'r ymgynghoriad a sut i ymateb yma: https://llyw.cymru/rheoliadau-cymwysterau-clercod-cynghorau-cymuned
Nodyn – os unrhyw un eisiau copi caled a wnewch adael i mi wybod.

10. **POLISI IAITH CYNGHORAU CYMUNED A THREF**
Llythyr Clerc Cyngor Tref Nefyn yn gofyn a oedd gan y Cyngor ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod 'roeddynt yn awyddus i'w drefnu "i greu memorandwm o ddealltwriaeth ynglyn a Polisi Iaith Cynghorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd fel bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod yn unol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cymal 6, Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."

10. **MYNWENT LLANDEGWNNING**
Adrodiad y Clarc.

11. **COMIN BACH YM MRYNCROES**
Adroddiad Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, a'r Clarc.

12. **HAWLIAU MIS AWST**

Yn gywir,

Clarc

**AELODAETH Y CYNGOR**
**Y CYNGHORWYR**

| | | | |
|---|---|---|---|
| David Brunelli | Carys H. Evans | Elin Hughes | Gwenan Griffith |
| Dylan Parry Jones | Ifor Owen | Glyn Roberts | Michael Strain |
| Carys E. Williams | Glenys Williams | Siôn Williams | |